## ATODLEN 2

Rheoliad 2

### DIWYGIADAU I'R FFURFLEN O'R ENW "CAIS AM GRANT ADLEOLI"

**1.** Yng nghwestiwn 4.9, yn y rhan sy'n ymwneud â lwfans gweithio i'r anabl, yn lle "Lwfans gweithio i'r anabl" rhodder "Credyd treth i berson anabl (a adwaenid gynt yn lwfans gweithio i'r anabl)" ac ar ddiwedd y rhan honno, mewosoder "**Nodyn 14A**".

**2.** Ar ddiwedd cwestiwn **4.23**, hepgorer "(os yw'n llai nag 16 awr yr wythnos)".

**3.** Yng nghwestiwn **4.29** —

(a) yn y rhan sy'n ymwneud â lwfans gweithio i'r anabl, yn lle "Lwfans gweithio i'r anabl" rhodder "Credyd treth i berson anabl (a adwaenid gynt yn lwfans gweithio i'r anabl)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Nodyn 14A**";

(b) yn y rhan sy'n ymwneud â chredyd teulu, yn lle "Credyd teulu" rhodder "Credyd treth i deuluoedd mewn gwaith (a adwaenid gynt yn gredyd teulu)" ac, ar ddiwedd y rhan honno, mewnosoder "**Nodyn 44B.**".

**4.** Yn lle cwestiwn **4.37**, rhodder —

"**4.37** Ydych chi'n talu, neu ydych chi wedi talu yn ystod y deuddeng mis diwethaf, am ofal ar gyfer unrhyw blentyn a enwir yng nghwestiwn 4.15 nad yw'n anabl ac sydd naill ai o dan 15 oed neu sydd (neu a oedd) heb gyrraedd y dydd Llun cyntaf ym mis Medi ar ôl ei ben blwydd yn 15 oed?

| | | |
|---|---|---|
| | | **Nodiadau 53 a 53A** |
| Ydw | □ | |
| Nac ydw | □ | |

**4.37A** Ydych chi'n talu, neu ydych chi wedi talu yn ystod y deuddeng mis diwethaf, am ofal ar gyfer unrhyw blentyn a enwir yng nghwestiwn 4.15 sy'n anabl ac sydd naill ai o dan 16 oed neu sydd (neu a oedd) heb gyrraedd y dydd Llun cyntaf ym mis Medi ar ôl ei ben blwydd yn 16 oed?

| | | |
|---|---|---|
| | | **Nodiadau 53 a 53A** |
| Ydw | □ | |
| Nac ydw | □ | |

Os ydych wedi ateb "Ydw" i naill ai cwestiwn 4.37 neu 4.37A, ewch i gwestiwn 4.38.

Os ydych chi wedi ateb "Nac ydw" i gwestiynau 4.37 a 4.37A, ewch i Ran 5".

**5.** Yng nghwestiwn **4.38** —

(a) yn lle'r is-baragraff sy'n dechrau â'r geiriau "Darperir y gofal mewn ysgol", rhodder —

"Darperir y gofal y tu allan i oriau ysgol gan ysgol ar dir ac mewn adeiladau ysgol neu gan awdurod lleol, ac mae'r tâl yn ymwneud â chyfnod sy'n dechrau ar ben blwydd y plentyn yn 8 oed ac yn dod i ben, os nad yw'r plentyn yn anabl, ar y diwrnod cyn y dydd LLun cyntaf ym Medi ar ôl ei ben blwydd yn 15 oed;";

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw rhodder —

"Darperir y gofal y tu allan i oriau ysgol gan ysgol ar dir ac mewn adeiladau ysgol neu gan awdurod lleol, ac mae'r tâl yn ymwneud â chyfnod sy'n dechrau ar ben blwydd y plentyn

yn 8 oed ac yn dod i ben, os yw'r plentyn yn anabl, ar y diwrnod cyn y dydd LLun cyntaf ym Medi ar ôl ei ben blwydd yn 16 oed;";

**6.** Ar ôl nodyn 14, mewnosoder —

"**44B.** Cynhwyswch unrhyw daliad sy'n unol â dyfarniad credyd teulu a ddyfarwyd gydag effaith o ddyddiad sy'n dechrau cyn 5 Hydref 1999. O 5 Hydref 1999 ymlaen adwacnir credyd teulu yn gredyd treth i deuluoedd mwen gwaith.".

**7.** Ar ôl nodyn 44A, mewnosoder —

"**14A.** Cynhwyswch unrhyw daliad sydd yn unol â dyfarniad lwfans gweithio i'r anabl a ddyfarwyd gydag effaith o ddyddiad sy'n dod cyn 5 Hydref 1999. O 5 Hydref 1999 ymlaen adwaenir lwfans gweithio i'r anabl yn gredyd treth i berson anabl.".

**8.** Ar ôl nodyn 53, mewnosoder —

"**53A.** Mac plentyn yn ababl at ddibenion cwestiynay **4.37, 4.37A** a **4.38** os yw wedi'i gofrestru'n ddall ar gofrestr a luniwyd o dan adran 29 o Deddf Cymorth Gwladol 1948 (gwasanaethau lles) neu, yn yr Alban, a ardystiwyd yn ddall ac o ganlyniad i hynny a gofrestrwyd yn ddall ar gofrestr a gynhelir gan neu ar ran awdurdod lleol yn yr Alban neu a beidiodd â chael ei gofrestru'n ddall mewn cofrestr o'r fath o fewn 28 wynthnos yn union cyn dyddiad y cais. Mae plentyn yn anabl at ddibenion y cwestiynau hyn hefyd os telir lwfans byw i'r anabl iddo, neu os talwyd lwfans byw i'r anabl iddo hyd nes iddo fynd yn glaf.".

**9.** Yn nodyn 55(1)(a), yn lle "lwfans gweithio i'r anabl" rhodder "credyd treth i berson anabl (a adwaenid gynt yn lwfans gweithio i'r anabl)".